Conditions of Contract

1 Where an appropriate British Standard Specification or British Standard Code of Practice issued by the British Standards Institution is current, all goods and materials used or supplied and all workmanship shall be in accordance with the appropriate British Standard or European equivalent.

2 Should the contractor fail to deliver the goods or materials or any portion thereof within the time or times specified in the contract, the Council without prejudice to any other remedy for breach of contract shall be at liberty to determine the contract either wholly or to the extent of such default and to purchase other goods or materials, as the case may be, of the same or similar description to make good (a) such default, or (b) in the event of the contract being wholly determined, the goods or materials remaining to be delivered. The clause shall further secure that the amount which would have been payable to the contractor in respect of the goods or materials, as the case may be, replaced by such purchase, if they had been delivered in accordance with the contract shall be recoverable from the contractor.

3 The Council shall be entitled to cancel the contract and to recover from the contractor the amount of any loss resulting from any such cancellations, if the contractor shall have offered or given or agreed to give any person any gift or consideration of any kind as an inducement or reward for doing or forbearing to do or for having done or forborne to do any action in relation to the obtaining or execution of the contract or any other contract with the Council or for showing or forbearing to show favour or disfavour to any person employed by him or acting on his behalf (whether with or without the knowledge of the contractor) or if in relation to any contract with the Council the contractor or any person employed by him or acting on his behalf shall have committed any offence under the Prevention of Corruption Acts 1889 to 1916, or shall have given any fee or reward the receipt of which is an offence under the sub-section (2) of Section 117 of the Local Government Act 1972.

Amodau Cytundeb

1 Lle mae Manyleb Safon Brydeinig neu Gôd Ymarfer Safon Brydeinig berthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig yn gyfredol, rhaid bod pob nwyddau a deunyddiau a ddefnyddir neu a gyflenwir a phob crefftwaith yn unol â'r Safon Brydeinig berthnasol neu Safon Ewropeaidd gyfatebol.

2 Os bydd i'r cyflenwr fethu â chyflenwi'r nwyddau neu ddeunyddiau neu unrhyw ran ohonynt o fewn y cyfnod neu gyfnodau a fanylir yn y cytundeb, fe all y Cyngor heb ymrwymiad i unrhyw fodd arall o unioni toriad cytundeb benderfynu terfynu'r cytundeb un ai'n gyfangwbl neu i raddau'r methiant a phrynu nwyddau neu ddeunyddiau eraill, fel bo gofyn, o'r un disgrifiad neu debyg i wneud iawn am (a) y methiant, neu (b) os bydd y cytundeb i'w derfynu'n gyfangwbl, y nwyddau neu'r deunyddiau sydd heb eu cyflenwi. Bydd y cymal yn ogystal yn sicrhau y gellir hawlio gan y cyflenwr y swm a fuasai wedi bod yn daladwy i'r cyflenwr am y nwyddau neu ddeunyddiau a amnewidiwyd gan y pryniant, pe baent wedi eu cyflenwi yn unol â'r cytundeb.

3 Bydd i'r Cyngor yr hawl i ddiddymu'r cytundeb ac i adennill oddi wrth y cyflenwr gwerth unrhyw golled fel canlyniad o'r diddymiadau hyn, os bydd y cyflenwr wedi cynnig neu roi neu gytuno i roi i unrhyw berson unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud neu beidio â gwneud unrhyw beth mewn cysylltiad ag ennill neu weithredu'r cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gyda'r Cyngor neu am ddangos neu beidio â dangos ffafriaeth neu anffafriaeth at unrhyw berson a gyflogwyd ganddo neu ag sydd yn gweithredu ar ei ran (un ai gyda neu heb wybodaeth y cyflenwr) neu os, yn gysylltiedig ag unrhyw gytundeb â'r Cyngor, bydd y cyflenwr neu unrhyw berson a gyflogwyd ganddo neu ag sydd yn gweithredu ar ei ran wedi cyflawni unrhyw drosedd o dan Ddeddfau Atal Llwgrwobrwyo 1889 i 1916, neu wedi rhoi unrhyw ffî neu wobr sydd, o'i dderbyn, yn drosedd o dan is-adran (2) o Adran 117 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.